# Yr Arglwydd Blencathra – Cyfyngiadau ar ei weithgarwch gwleidyddol wrth iddo wasanaethu fel aelod o Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Fel rhan o adolygiad diweddar o drefniadau llywodraethu'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), rydym yn cyhoeddi'r cyfyngiadau sydd ar waith o ran yr hyn y caiff yr Arglwydd Blencathra ei ddweud yn Nh?'r Arglwyddi am fusnes yr ASB, a'r hyn na chaiff ei ddweud.

1. Yn ogystal â'r cyfyngiadau cyffredinol yng Nghymal 12 o'r Telerau Penodi (footnote 1), byddaf yn cadw at gymal 2.2 yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fwrdd yr ASB (footnote 2), ac ni fyddaf yn dal unrhyw swydd na swyddfa wleidyddol mewn unrhyw blaid wleidyddol, boed yn gyflogedig ai peidio.

2. Ni fyddaf yn mynd i unrhyw gynhadledd wleidyddol o'm gwirfodd. Os bydd unrhyw barti, corff anllywodraethol neu sefydliad arall, boed mewn cynhadledd flynyddol ai peidio, yn gofyn i mi gymryd rhan mewn cyfarfod fel llefarydd ar ran yr ASB, yn unol â chymal 2.3 ac 8.1 o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fwrdd yr ASB (footnote 3), ni fyddaf yn gwneud hynny, oni bai fy mod wedi cael caniatâd gan Gadeirydd neu Brif Weithredwr yr ASB.

3. Ni fyddaf yn chwarae unrhyw ran o gwbl mewn unrhyw ymgyrchu gwleidyddol o unrhyw fath yn ystod etholiad neu refferendwm nac ar unrhyw adeg arall.

4. Yn Nh?'r Arglwyddi, ni fyddaf yn siarad nac yn gofyn cwestiynau am unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwaith perthnasol yr ASB, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) nac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).

5. Wrth fynd i gyfarfodydd Cyngor Ewrop, ni fyddaf yn gwneud areithiau ar unrhyw fater sy'n ymwneud â gwaith perthnasol yr ASB, DHSC ac a allai adlewyrchu'n wael ar yr ASB, DHSC neu Defra.

6. Yn unol â pharagraff 8, ni fyddaf yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol arwyddocaol ond mae gennyf hawl i bleidleisio ar unrhyw fater. Diffinnir gweithgarwch gwleidyddol arwyddocaol fel (footnote 4) cael eich cyflogi gan blaid wleidyddol, dal swydd o bwys mewn plaid, sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid mewn etholiad, siarad yn gyhoeddus ar ran plaid wleidyddol neu roi rhoddion neu fenthyciadau sylweddol i blaid. Benthyciadau a rhoddion sylweddol yw'r rhai hynny y mae eu maint yn golygu bod yn rhaid rhoi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol amdanynt, yn unol â throthwy adrodd plaid ganolog.

7. Byddaf yn parhau i gymryd Chwip y Ceidwadwyr yn Nh?'r Arglwyddi. Ni fyddaf yn trafod fy mhleidlais na'i hegluro.

8. Byddaf yn ymwybodol y gall gwrthdaro buddiannau posib godi ar wahân i'r rhai a restrir yn y ddogfen hon. Pe baent yn codi, byddaf yn derbyn cyngor priodol ar sut i'w rheoli.

9. O ran y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, ac yn enwedig adran 4.1, DHSC yw'r adran benodi, a dylid ceisio cyngor a chytundeb o dan yr adran honno gan y DHSC.

10. Gall DHSC o bryd i’w gilydd adolygu telerau’r ddogfen hon, gan gynnwys mewnosod, dileu, addasu, neu ailddatgan unrhyw destun, trwy roi rhybudd rhesymol yn ysgrifenedig (gan gynnwys gohebiaeth electronig). Byddaf yn ymgynghori â’r ASB ynghylch unrhyw gynigion i ddiwygio telerau’r ddogfen hon. Bydd DHSC yn rhoi gwybod i Fwrdd yr ASB am unrhyw ddiwygiadau a wneir.

11. Yn y ddogfen hon:

a) mae’r ymadrodd “unrhyw faterion sy’n ymwneud â gwaith perthnasol yr ASB, DHSC, neu Defra” yn cwmpasu holl waith yr ASB, a materion sy’n ymwneud â gwaith yr ASB neu sy’n gorgyffwrdd â gwaith yr ASB sydd o fewn cwmpas DHSC neu Defra. Er enghraifft, ni fwriedir i hyn gwmpasu materion nad ydynt yn gysylltiedig fel amddiffynfeydd rhag llifogydd (sydd o fewn cwmpas Defra) neu wasanaethau iechyd meddwl (sydd o fewn cwmpas DHSC);

b) mae cyfeiriadau at DHSC yn golygu’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac unrhyw adran neu gorff cyhoeddus y gellir neilltuo neu drosglwyddo ei swyddogaethau iddynt yn y dyfodol;

c) mae cyfeiriadau at Defra yn golygu Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac unrhyw adran neu gorff cyhoeddus y gellir neilltuo neu drosglwyddo ei swyddogaethau iddynt yn y dyfodol.

1. Siarad cyhoeddus a gweithgarwch gwleidyddol – Ar faterion sy’n ymwneud â’r Asiantaeth Safonau Bwyd, ni ddylech fel arfer gyflwyno areithiau gwleidyddol na chymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol eraill. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid ceisio arweiniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

2. Arfer disgresiwn priodol wrth gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol – Disgwylir i Aelodau Bwrdd beidio â dal swyddi â thâl gyda phleidiau gwleidyddol na rolau di-dâl arbennig o sensitif neu broffil uchel mewn plaid wleidyddol, er eu bod yn rhydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol ar wahân i wneud areithiau gwleidyddol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg ar faterion sy’n effeithio’n uniongyrchol ar waith yr ASB (os bydd unrhyw amheuaeth, dylai Aelodau’r Bwrdd geisio cyngor gan y Prif Weithredwr).

3. Rhaid i Aelodau’r Bwrdd beidio â siarad ar lwyfan gyhoeddus nac yn y cyfryngau a chyflwyno eu hunain fel Aelod o Fwrdd yr ASB oni bai bod y Cadeirydd neu’r Prif Weithredwr wedi cytuno ar hynny. Lle mae Aelodau’r Bwrdd yn siarad ar lwyfan gyhoeddus mewn rhinwedd arall, rhaid iddynt sicrhau nad oes unrhyw bosibilrwydd rhesymol y gallai eu sylwadau gael eu hystyried yn rhai’r ASB na’u bod yn cynrychioli barn yr ASB.

4. Defnyddiwyd y geiriad hwn wrth recriwtio Prif Arolygydd ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), sydd hefyd yn adran anweinidogol (fel yr ASB), yn ogystal ag ar gyfer penodiadau i amrywiaeth o gyrff eraill.